

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion  
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 18fed Ebrill 2017

Presennol -Hefin Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Prys Ellis, John D Jones, Einion Edwards, Ieuan Jones, Cyng. Peter Lewis Cyng BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Helen Ellis, Ffuon Williams.  
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 28ain Chwefror 2017

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol. Cyfeiriodd y clerc at yr adroddiad canlynol gan yr heddwes Aimie Clayton.

Mae'r heddlu yn parhau i gadw golwg am foduron sydd yn gôr yrru gyferbyn a'r ysgol, ffordd Rhuthun a hefyd ffordd Tan Llan. Mae 5 gyrrwr wedi derbyn llythyr yn ei rhybuddio am yrru gyferbyn a'r ysgol .

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd ateb gan Heledd Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlinellu ei bod yn disgwyl i arbenigwyr gael golwg ar y safle a bydd adroddiad ynglŷn â'r mater yn cael ei anfon i'r Cyngor Cymuned yn y dyfodol agos.

[1.2] Tai Gwag/Cartrefi Conwy.

Nodwyd bod syrjeri wedi cael ei drefnu yn yr Ystafell Blwyf ar y 3ydd Fai am 1.00 o'r gloch hyd i 4.30 o'r gloch y prynhawn.

[1.3] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen/ Lluniau/Arteffactau

Dywedodd y clerc nad oedd Mrs Arfona Evans wedi cysylltu mhellach.

[1.4] Llythyr Ms Helen Williams/ Cais i brynu darn o Gae Chwarae, Cae Llwyd

Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach gan Ms Helen Williams.

[1.5] [2.5] Golau stryd Maes Aled

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Parcio o Flaen yr Hen Orsaf Heddlu/Ffordd Rhuthun.

Penderfynwyd cael gair hefo'r heddlu ynglŷn a'r uchod.

[1.7] Cae Llwyd

Nodwyd bod angen tacluso ymylon y llwybr sydd yn croesi'r cae, a bod angen arwydd yn gwahardd beicwyr o'r cae. Y Clerc i drefnu.

[1.8] Cadw Hen Enwau Cymraeg

Dyweddod y clerc iddo wneud ymholiadau gydag aelod or cynulliad ynglŷn ar mesur a gynigwyd gan AC Dai Lloyd i warchod enwau Cymraeg ar ffermydd a thai yng Nghymru. Nodwyd na fu'r mesur yn llwyddiannus ond fod Darren Millar wedi cefnogi'r cynnig.

[1.9] Ymddeoliad

Nodwyd ymddeoliad Hefin Edwards a Helen Ellis o'r Cyngor Cymuned. Diolchwyd i'r ddau ohonynt am eu hymroddiad ynghyd a blynyddoedd o wasanaeth i'r gymuned.

[2.] Nodwyd y wybodaeth canlynol

[a] Cyngor B S Conwy Cynllun Corfforaethol Drafft 2017 – 2022

[b] Llywodraeth Cymru, Canllaw Cynghorydd Da

Cadeirydd \_\_\_\_\_